



Dinas a Sir Abertawe

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe

Dydd Llun, 14 Chwefror 2022 am 4.30 pm

Yn Bresennol: Y Cyngorydd L James (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

Y Cyngorydd(wyr)

J E Burtonshaw
S M Jones
B J Rowlands
L J Tyler-Lloyd

Y Cyngorydd(wyr)

M Durke
E T Kirchner
G J Tanner

Y Cyngorydd(wyr)

M Jones
W G Lewis
L V Walton

Swyddog(ion)

Tracey Meredith
Huw Evans
Caritas Adere
Jeremy Parkhouse

Prif Swyddog Cyfreithiol
Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd
Gweithrediaeth Gyfreithiol
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y Cyngorydd(wyr): N J Davies a/ac J A Hale

32 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

33 Cofnodion.

Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2022 fel cofnod cywir.

34 Adolygiad o Lawlyfr y Cyngorwyr - Disgrifiadau Rôl a Manylebau Person.

Cyflwynodd Huw Evans, Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, adroddiad a oedd yn ceisio adolygu Adran D o Lawlyfr y Cyngorwyr – Disgrifiadau Rôl a Manylebau Person ac argymhell y fersiwn ddiwygiedig i'w mabwysiadu gan y cyngor. Nod yr adolygiad oedd sicrhau bod yr wybodaeth yn gywir ac yn adlewyrchu unrhyw drefniadau gweithio newydd.

Esboniwyd bod Adran D yn cyd-fynd yn bennaf â Fframwaith Disgrifiadau Rôl Aelodau a Manylebau Person CLILC ar hyn o bryd – Mehefin 2021. Fodd bynnag, roedd nifer o gofnodion sy'n benodol i Gyngor Abertawe fel a ganlyn:

- i) Rolau Swyddi Cynghorwyr
- ii) Disgrifiad o Rôl Cynullydd Craffu
- iii) Hyrwyddwyr Cydraddoldeb yr Aelodau - Disgrifiad Rôl
- iv) Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Polisi

Cynigiwyd y dylid disodli'r Adran D bresennol yn ei chyfanrwydd gyda Fframwaith Disgrifiadau Rôl Aelodau a Manylebau Person CLILC fel y nodir yn Atodiad A yr adroddiad. Cynigiwyd hefyd fod yr awdurdod yn parhau i gyd-fynd â Fframwaith CLILC pe bai'n cael ei ddiwygio yn y dyfodol.

Ychwanegu cofnodion sy'n benodol i Gyngor Abertawe fel y'u hamlinellir yn Atodiad B yr adroddiad at y rhai yn Atodiad A i ffurfio Adran D newydd Llawlyfr y Cynghorwyr.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol: -

- Nid oedd y manylion a ddarparwyd yn cael eu cynnwys yn yr holl ddisgrifiadau swydd a sut yr oedd CLILC wedi ymgynghori'n eang ar y disgrifiadau swydd a gallant ddiwygio'r manylion ymhellach yn y dyfodol;
- Y ffaith mai diben y disgrifiadau swydd oedd rhoi gwell dealltwriaeth i ddarpar Gynghorwyr o'r rolau;
- Dylid diwygio rôl yr Hyrwyddwr Cydraddoldeb i rôl yr Hyrwyddwr Amrywiaeth;
- Y weithdrefn i ethol Cynullwyr Craffu.

Penderfynwyd: -

- 1) Y byddai "Disgrifiadau Rôl Aelodau Fframwaith a Manylebau Person Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) - Mehefin 2021" a Disgrifiadau Rôl penodol Cyngor Abertawe fel y'u nodir yn Atodiadau A a B yn cael eu hargymell yn ôl eu trefn i'r cyngor i'w mabwysiadu fel Adran D o Lawlyfr y Cynghorwyr;
- 2) Bydd yr awdurdod yn parhau i gyd-fynd â Fframwaith CLILC pe bai'n cael ei ddiwygio yn y dyfodol.

35 Cynllun Gwaith 2021-2022.

Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, er bod cyfarfod arall wedi'i drefnu ar gyfer 21 Mawrth 2022, nad oedd unrhyw eitemau i'w trafod ar hyn o bryd. Ychwanegodd na fyddai'r cyfarfod yn cael ei ganslo eto ond mae'n debyg y byddai'n cael ei ganslo yn nes at ddyddiad y cyfarfod.

Diolchodd y Cynghorwyr nad oeddent yn sefyll i gael eu hailethol i'r Pwyllgor am y gwaith pwysig yr oedd wedi'i gwblhau.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.42 pm

Cadeirydd